ICT Curriculum Team

Tîm Cwricwlwm TGC

Uned: Creu Lluniau

TGCh - Y Blynyddoedd Cynnar

Trosolwg o'r Uned hon:
Dylid annog disgyblion i wneud marciau ar y BGRh neu gyfrifiadur gan ddefnyddio rhaglen graffeg syml a mwynhau defnyddio lliwiau gwahanol a gwneud patrymau hap. Caiff sgiliau motor bras eu datblygu drwy symudiadau mawr ar y BGRh a sgiliau motor manwl drwy ddefnyddio llygoden y cyfrifiadur neu pennau BGRh. Gall gwneud marciau i gerddoriaeth fod yn ysgogiad da ac yn llawer o hwyl. Bydd plant yn newid lliwiau a maint brwshys, yn archwilio'r offer yn y rhaglen ac yn siarad am yr hyn sy'n digwydd. Byddant yn dechrau tynnu lluniau o'u hunain a'r byd o'u cwmpas ac yn dysgu y gall eu lluniau gael eu hargraffu. Gellir defnyddio gwaith artistiaid a ffotograffau digidol fel ysgogiad i greu lluniau, a gall ardaloedd chwarae rôl gynnwys cyfrifiadur wedi'i osod ar gyfer gwneud marciau i wella ac estyn chwarae plant.

Disgwyliadau ar ddiwedd yr uned hon:

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau: gwneud marciau a siarad am eu hystyr a defnyddio pecyn graffeg syml i greu darluniau cynrychioliadol o ddigwyddiadau go iawn neu ddychmygol. Gallant newid lliw a maint brwsh a dangos rheolaeth dda o'r llygoden.

Bydd rhai disgyblion ond yn gallu: gwneud marciau mewn pecyn graffeg a byddant yn siarad gydag anogaeth a chefnogaeth am eu lluniau gan ddangos peth rheolaeth o'r llygoden.

Bydd rhai plant hefyd yn gallu: gwneud marciau, siarad am eu hystyr a defnyddio pecyn graffeg syml i wneud lluniau cynrychiadol o ddigwyddiadau go iawn neu ddychmygol a'u defnyddio'n briodol fel rhan o'u chwarae rôl. Maent yn defnyddio'r llygoden yn hyderus, yn newid lliw a maint brwsh, a thrwy eu harchwilio annibynnol eu hunain yn dangos gallu cynyddol i ddefnyddio offer arall mewn pecyn graffeg.

ALLWEDD:

Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Diwylliannol) (DPChLlAD)	Datblygiad y Gymraeg (DYG)	Datblygiad Creadigol (DC)
Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (ILlC)	Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd (GDB)	Chwarae yn yr Awyr Agored (**ChAA**)
Datblygiad Mathemategol (**DM**)	Datblygiad Corfforol (DC)	Chwarae Rôl (**ChR**)

DPChLIAD ILIC DM DYG GDB DC DC ChAA ChR

Blynyddoedd Cynnar **Creu gwybodaeth a Syniadau a'u Cyflwyno**

Asesiad Athrawon: *Dylai'r sgiliau a ddangosir gan y plant fod yn rhan o asesu parhaus.*
Dylid olrhain a chofnodi cynnydd disgyblion yn unol â pholisi asesu'r ysgol, a dylid defnyddio'r wybodaeth hon i gyfeirio unrhyw gynllunio yn y dyfodol. Darperir taflenni cofnodi ar gyfer ysgolion fel rhan ddewisol o'r Cynllun Gwaith hwn.

Taflen gofnodi

Hunan-asesu gan y disgybl

Creu Lluniau

Sgiliau TGCh	Meysydd Dysgu	Gweithgaredd a Awgrymir	Geirfa	Adnoddau	Sgiliau ar draws y Cwricwlwm
Arbrofi â gwneud marciau a thempledi gan ddefnyddio offer sylfaenol mewn pecyn graffeg sy'n datblygu sgiliau motor manwl a bras.	PSDWBCD LLC MD WLD KUW PD CD	Dylid annog disgyblion i wneud marciau ar y BGRh neu gyfrifiadur gan ddefnyddio rhaglen graffeg syml a mwynhau defnyddio lliwiau gwahanol a gwneud patrymau hap. Gellir datblygu sgiliau motor bras drwy wneud symudiadau mawr ar y BGRh a gellir datblygu sgiliau motor manwl wrth ddefnyddio llygoden y cyfrifiadur. Gall staff fodelu sut i fynd â llinell am dro ar fwrdd gwyn rhyngweithiol drwy ddefnyddio pecyn graffeg neu feddalwedd BGRh. Dylai'r rhaglen gael ei gosod fel rhan o ddarpariaeth wedi'i chyfoethogi i'r plant ei harchwilio. Dylid eu hannog i gymryd tro a rhannu yn enwedig ar y BGRh a dylid annog y Gymraeg wrth siarad am liwiau etc. Wrth ddefnyddio pecyn graffeg dylai'r plant gael eu hannog i archwilio'r eiconau gwahanol i gael gwybod beth yw diben pob un. Ar ddiwedd y sesiwn gellir gofyn i'r plant i sgwrsio am, a dangos yr hyn y gallant ei wneud nawr gan ddefnyddio rhaglen baentio. Rhowch amrywiaeth o gyfleoedd i'r plant	Lliwiau Offer Llygoden Saeth Clicio Arlunio Brwsh paent Palet Maint Dadwneud Argraffu Sgrîn Patrwm Siapiau Llinell Eiconau Marciau Templed	Pecyn graffeg BGRh Cyfrifiadur Templedi Argraffydd	

		wneud marciau, tynnu lluniau a llinellau ar y sgrin a'r/neu'r BGRh a siarad amdanynt. Trefnwch weithgareddau cyn-ysgrifennu ar y BGRh drwy wneud llinellau ysgafn i'r plant eu dilyn. Dylai'r llinellau annog cyfeiriadaeth o'r chwith i'r dde a dangos man cychwyn clir i adlewyrchu patrymau da ar gyfer datblygu patrymau llawysgrifen. Rhowch lun amlinell i'r plant sy'n gysylltiedig â thema a gofynnwch iddynt greu patrwm e.e. cennau ar bysgodyn, plu ar aderyn, teils ar do, gwythiennau ar ddeilen etc. Rhowch dempled i'r plant o goeden Nadolig, wyau Pasg, siapiau 2-D a gofynnwch iddynt i addurno'r rhain â phatrwm o'u dewis. Crëwch batrymau Rangoli a Mendi ar dempled llaw. Gall plant gofnodi eu hymatebion i gerddoriaeth gan ddefnyddio rhaglen baentio syml i greu marciau a siarad am eu lluniau. Gall gwneud marciau ar gyfrifiadur estyn chwarae fel rhan o'r ardal chwarae rôl, er enghraifft, mewn swyddfa, meddygfa, garej etc.			

Yn gallu newid lliw a maint brwsh wrth greu llun.		Dangoswch sut i ddefnyddio'r brwsh i newid maint a sut i ddewis lliwiau o balet mewn rhaglen graffeg syml. Gellir gwneud hyn ar BGRh neu gyfrifiadur. Gellir annog y plant i ddewis offer a lliwiau i dynnu lluniau syml sy'n gysylltiedig â thema neu bwnc er enghraifft, tynnu lluniau o'u hunain ar y sgrin, archwilio newidiadau tymhorol yn yr amgylchedd, lluniau arsylwadol o greaduriaid byw y maent wedi dod o hyd iddynt yn yr awyr agored, (byddai defnyddio microsgop digidol a/neu chwyddwydr yn ysgogiad da) tynnu lluniau â chamera digidol ar ymweliad dosbarth i gynorthwyo galw i gof a'u defnyddio i helpu'r plant i dynnu llun o rywbeth roeddent wedi'i weld e.e. anifeiliaid ar y fferm, anifeiliaid anwes etc. Creu anifeiliaid anwes dychmygol, lluniau o gymeriadau o storïau a hwiangerddi etc. a siarad am y lluniau. Gall staff weithio gyda'r plant i gynhyrchu arddangosfa sy'n cynnwys paentiadau, darluniau, collage a lluniau a wnaed ar gyfrifiadur. Siaradwch â'r plant a chymharwch y lluniau a grëwyd gan ddefnyddio cyfryngau gwahanol. Gall gwaith artistiaid gael ei ddefnyddio fel ysgogiad i waith celf plant gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau ac mae gwaith rhai artistiaid yn addas iawn ar gyfer celf cyfrifiadur megis Mondrian, Kandinski ac artistiaid o Gymru megis William Brown.	Sgrîn Llygoden Clicio Cyrchwr Saeth Palet Offer maint offer lliw dadwneud argraffu	Pecyn graffeg BGRh CP Templedi Argraffydd Ffotograffau Digidol	

Yn dechrau deall y gall testun/delweddau a grëwyd ar gyfrifiadur gael eu hargraffu.		Dangoswch i'r plant eicon yr argraffydd ar y cyfrifiadur ac esbonio iddynt y gall cyfrifiadur gynhyrchu copi papur o'r hyn sydd ar y sgrin cyn belled â bod argraffydd wedi'i gysylltu ag ef. Trafodwch reolau am argraffu.	Cyfrifiadur Sgrîn Llygoden Clicio Argraffydd Eicon Symbol Copi papur Argraffydd Papur	Cyfrifiadur Argraffydd Papur	